Lowri Jones

Pam ddylai aelodau CGGC bleidleisio drosof i fod yn Ymddiriedolwr?

Ers 2000 bum yn gweithio fel Prif Swyddog Menter Iaith Sir Caerffili, mudiad gwirfoddol sy'n cynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Rhwng 2018-21, roeddwn yn Gadeirydd Mentrau Iaith Cymru, y rhwydwaith o Fentrau Iaith ar draws Cymru gan gefnogi datblygiad prosiectau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol sy'n cynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ar lefel gymunedol. Yn ddiweddar, dechreuais fel aelod o Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector, yn cynrychioli'r rhwydwaith o sefydliadau gwrifoddol ar draws Cymru sy'n cefnogi defnydd y Gymraeg.

Rydw i'n angerddol am datblygu cymunedol ac yn mwynhau dilyn datblygiad mudiadau gwirfoddol wrth iddynt ymateb i anghenion lleol trwy darparu gwasanaethau ac adnabod bylchau mewn gwasanaethau. Fel rhywun a anwyd a magwyd mewn ardal heb lawer o Gymraeg, rydw i wedi ymrwymo i gynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn lleol. Rydw i'n gefnogwr brwd o'r sector gwirfoddol a'i rôl allweddol yn adferiad ein cymunedau mwyaf difreintiedig a'r broses o leihau tlodi. Yn fam i bedwar o fechgyn, rydw i'n weithgar gyda nifer o grwpiau chwaraeon lleol a mudiadau gwirfoddol eraill.